Dyddiad cyhoeddi Mai 2010

Deall canllawiau NICE

Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG

National Institute for Health and Clinical Excellence

# Gosod disgiau asgwrn cefn artiffisial yn lle rhai sydd wedi treulio yn y gwddf

*Mae 'canllawiau ymyriadau' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio disgiau artiffisial yn y GIG i drin pobl sydd â disgiau asgwrn cefn sydd wedi treulio yn y gwddf. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae canllawiau ymyriadau yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio disgiau asgwrn cefn sydd wedi treulio yn y gwddf na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi'r wybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

## Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Mae tystiolaeth i ddangos bod y driniaeth hon yn gweithio cystal ag ymasiad yr asgwrn cefn yn y byrdymor a gallai leihau'r angen am fwy o lawdriniaeth yn yr hirdymor. Yr unig broblemau diogelwch yw'r rheini sydd eisoes yn hysbys ar gyfer ymasiad yr asgwrn cefn. Felly, gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â disgiau asgwrn cefn sydd wedi treulio yn y gwddf cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Dim ond mewn unedau arbennig sy'n cyflawni llawdriniaethau asgwrn cefn ar y gwddf yn rheolaidd y dylid cynnal y driniaeth.

Mae NICE wedi annog gwaith ymchwil pellach i'r driniaeth o osod disg asgwrn cefn artiffisial yn y gwddf.

## Gosod disgiau asgwrn cefn artiffisial yn y gwddf

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer disgiau sydd wedi treulio yn y gwddf. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'gosod disg rhyngfertebrol prosthetig yn adran yddfol asgwrn y cefn'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae disgiau asgwrn cefn yn y gwddf yn gweithredu fel clustogau rhwng esgyrn y cefn (y fertebrâu). Os yw gorchudd caled allanol un o'r disgiau wedi'i niweidio neu'i wanhau, gall y deunydd tebyg i jeli sydd y tu mewn iddo wthio tuag allan. Gelwir hyn yn ddisg wedi llithro fel arfer neu'r enw meddygol yw disg â thorgest. Os yw'n gwasgu ar nerf gall achosi poen

yn y gwddf a'r ysgwydd ac anystwythder; yn y breichiau gall achosi poen a theimladau megis pigo a goglais, a gwendid a merwindod.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwella heb lawdriniaeth. Efallai y bydd angen iddynt orffwys, cymryd poenladdwyr, cael ffisiotherapi neu weithiau gael pigiadau yn y gwddf (er mwyn lleihau llid yn y nerfau). Ond os nad yw symptomau'n gwella neu os oes tebygolrwydd o broblemau difrifol yn ymwneud â'r nerfau, gellir cynnig llawdriniaeth i'r unigolyn. Mae'r llawdriniaeth gonfensiynol yn cynnwys tynnu'r disg cyfan neu ran ohono ymaith er mwyn cymryd y pwysau oddi ar y nerfau (disgectomi yn yr adran yddfol ar gyfer datgywasgu'r nerfau). Weithiau caiff yr esgyrn yn yr ardal eu huno (ymasiad yr asgwrn cefn) gyda'r nod o wneud yr ardal yn fwy sefydlog. Gwneir hyn drwy ddefnyddio grafft asgwrn.

Mae llawdriniaeth disgiau asgwrn cefn artiffisial yn cynnwys tynnu'r disg sydd wedi'i niweidio a gosod disg artiffisial yn ei le. Rhoddir anesthetig cyffredinol i'r claf a gwneir y driniaeth drwy doriad ym mlaen gwddf y claf. Tynnir asgwrn neu rannau o'r disg o'r ardal o amgylch gwreiddiau'r nerf (datgywasgu) a thynnir y disg neu'r rhan o'r disg sydd wedi'i niweidio. Gosodir disg artiffisial er mwyn galluogi't esgyrn i symud yn ddi-boen ac atal anaf i'r disgiau cyfagos dros amser. Yn dibynnu ar faint o ddisgiau sydd wedi'u niweidio, gall unigolyn gael un neu ragor o ddisgiau artiffisial yn y gwddf yn ystod yr un llawdriniaeth.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio’n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod gosod disg asgwrn cefn artiffisial yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a’r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i’r driniaeth.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal fydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth fydd yn digwydd os aiff rhywbeth o’i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

Ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE isod. Edrychodd NICE ar saith astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Gwelwyd mwy o welliant mewn cleifion a gafodd y driniaeth disg artiffisial (a fesurwyd gan holiadur ar boen yn y gwddf a'i effeithiau ar fywyd bob dydd) nag a welwyd mewn cleifion a gafodd lawdriniaeth ymasiad yr asgwrn cefn mewn astudiaeth o 541 o gleifion pan adolygwyd eu cynnydd ar ôl tri mis. Fodd bynnag nid oedd y gwahaniaeth o ran gwelliant yn sylweddol pan adolygwyd eu cynnydd ar ôl chwe mis, blwyddyn a dwy flynedd. Mewn astudiaeth o 463 o gleifion, gwelwyd mwy o welliant yn y cleifion a gafodd driniaeth disg artiffisial o gymharu â'r rheini a gafodd ymasiad yr asgwrn cefn pan adolygwyd eu cynnydd ar ôl dwy flynedd. Yn yr astudiaethau o 541 a 463 o gleifion ac astudiaeth arall o 209 o gleifion, roedd ansawdd bywyd (a fesurwyd drwy holiadur) cleifion a gafodd ddisg artiffisial a'r rheini a gafodd ymasiad yr asgwrn cefn wedi gwella pan adolygwyd eu cynnydd ar ôl dwy flynedd.

Mewn astudiaeth o 54 o gleifion, y cafodd rhai ohonynt fwy nag un disg artiffisial, ni chafwyd achosion o asgwrn yn cronni o amgylch y disg artiffisial mewn 26 allan o 77 o ddisgiau artiffisial flwyddyn ar ôl y driniaeth. Mewn wyth disg artiffisial, tyfodd asgwrn o amgylch y disg ond nid oedd wedi atal symudiad. Mewn saith disg roedd yr asgwrn a gronnodd wedi atal symudiad, gan wneud i'r asgwrn cefn ymasio yn safle'r disg artiffisial.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gellid

mesur llwyddiant drwy ddefnyddio sgoriau am anabledd, poen yn y fraich a'r gwddf, ansawdd bywyd a llwyddiant technegol. Ymysg ffactorau eraill mae p'un a oes angen llawdriniaeth arall, amrediad symudiad a chyfradd y problemau yn y disgiau nesaf at y disg a gafodd driniaeth rhwng pum a deng mlynedd yn ddiweddarach.

## Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth o 541 o gleifion, nid oedd angen llawdriniaeth bellach i gywiro problemau ar ddim un o'r 276 o gleifion a gafodd ddisg artiffisial. O'r 265 o gleifion a gafodd ymasiad yr asgwrn cefn, roedd angen i bump ohonynt gael llawdriniaeth ymasio arall ac roedd angen i naw arall gael llawdriniaeth i helpu i sefydlogi'r asgwrn cefn yn y gwddf erbyn yr adolygwyd eu cynnydd ar ôl dwy flynedd. Mewn astudiaeth o 146 o gleifion cafwyd gollyngiad o hylif serebro-sbinal mewn un allan o 43 o gleifion a gafodd ddisgiau artiffisial. Cafwyd achos o esgyrn yn y cefn yn torri yn ystod y driniaeth disg artiffisial mewn claf mewn un astudiaeth. Cafwyd gwaedu yn sgîl darnau o asgwrn o'r toriadau ond llwyddwyd i reoli'r gwaedu ac aeth y driniaeth rhagddi heb ragor o broblemau.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod problemau posibl yn cynnwys y disg artiffisial yn symud neu'n llacio, niwed i'r asgwrn cefn sy'n achosi parlys islaw'r gwddf, anaf sy'n gwthio'r disg allan o'i le, crymedd annormal (cyffosis) yn yr asgwrn cefn a nerfau'n parhau i gael eu gwasgu. Gellid cael problemau eraill gan gynnwys haint, y disg artiffisial yn ymasio, angen tynnu'r disg artiffisial, darnau o ddisg yn achosi llid, y disg yn treulio a'r asgwrn yn ymddatod o amgylch y disg (osteolysis).

## Rhagor o wybodaeth am ddisgiau wedi llithro yn y gwddf

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk/) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar ddisgiau wedi llithro, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i’r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy’n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae canllawiau ymyriadau yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy’n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae’n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'gosod disg rhyngfertebrol prosthetig yn adran yddfol yr asgwrn cefn’. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/IPG341*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-84936-309-9

N2253 1P 12 May 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2010. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-

profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.